

## MB011 - Comisiynydd Plant Cymru

### Senedd Cymru | Welsh Parliament

Bil arfaethedig – Datblygu'r Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl (Cymru) |  
Proposed Development of the Mental Health Standards of Care (Wales) Bill

Ymateb gan: Cynghorydd Polisi, Comisiynydd Plant Cymru | Evidence from:  
Policy Adviser, Children's Commissioner for Wales

### Ymgorffori egwyddorion trosfwaol mewn deddfwriaeth

#### Cwestiwn 1: A ydych yn credu bod angen y ddeddfwriaeth hon?

##### A allwch roi rhesymau dros eich ateb?

Ydw – mae'r Bil yn cynnig grymuso unigolion, ac yn gwneud ymgais benodol i ddileu'r terfyn oed ar gyfer gwneud cais am ailasesu iechyd meddwl. Mae hynny'n golygu y bydd plant yn gallu ymarfer eu hawl i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ar faterion sy'n effeithio arny'n nhw. Mae'r Bil hefyd yn cynnig cyfnewid y darpariaethau Perthynas Agosaf am ddarpariaethau Person Enwebedig, ac rwy'n cefnogi hynny.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r memorandwm esboniadol yn rhoi digon o fanylion am yr holl elfennau sy'n rhan o'r Bil. Fel y nodir isod, rwy'n teimlo y gallai rhai elfennau fod yn gliriach o ran esbonio'r newid ymarferol byddan nhw'n ei wneud i fywydau plant. Rwy'n awgrymu bod y memorandwm esboniadol yn cael ei ddiwygio i wneud pwrpas arfaethedig rhai o'r newidiadau hyn yn gliriach.

#### Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddorion trosfwaol y mae'r Bil yn ceisio eu hymgorffori?

Cytuno

## **Newidiadau penodol i'r ddeddfwriaeth bresennol**

### **A. Perthynas Agosaf a Pherson Enwebedig**

#### **Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i roi rôl newydd Person Enwebedig yn lle'r darpariaethau Perthynas Agosaf yn Neddf Iechyd Meddwl 1983?**

##### **A allwch roi rhesymau dros eich ateb?**

Cytuno.

Byddai hyn yn rhoi mwy o ymreolaeth i'r unigolyn dan sylw ddewis person enwebedig, os nad ydynt am i'w perthynas agosaf eu cynrychioli. Bydd hynny, yn benodol, o fudd i bobl ifanc yng ngofal yr awdurdod lleol, na fydd aelodau o'u teulu o reidrwydd yn rhan weithredol o'u penderfyniadau gofal iechyd o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, bydd angen ystyried y cynnig hwn yn ofalus, fel yr eglurir yn [Adroddiad Adolygu'r Ddeddf Iechyd Meddwl \(2018\)](#).

Bydd angen i'r darpariaethau Person Enwebedig ddiogelu yn erbyn unrhyw ecsbloetio posibl gan Berson Enwebedig.

Bydd angen rhoi ystyriaeth yma i gapasiti plant a phobl ifanc ar y mater hwn. Gallai'r dull gweithredu a geir yng Nghôd Ymarfer Rhan 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fod o gymorth wrth ystyried y ffordd orau o rymuso pobl i ddewis y person gorau i'w cefnogi a chynrychioli eu hanghenion.

### **B. Newid y meini prawf ar gyfer cadw, gan sicrhau'r disgwyliad o fudd therapiwtig**

#### **Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i newid y meini prawf ar gyfer cadw er mwyn sicrhau mai dim ond os ydynt yn peri risg o niwed difrifol, naill ai iddynt hwy eu hunain neu i eraill, y gellir cadw pobl?**

##### **A allwch roi rhesymau dros eich ateb?**

Cytuno.

Fel mae'r nodyn esboniadol ar gyfer y Bil yn egluro, mae Côt Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl eisoes yn cyflwyno'r egwyddor hon, ond rwy'n cytuno bod hwn yn ddatganiad pwysig i'w grisialu yn y gyfraith trwy'r Bil hwn.

---

Yn ystod pandemig Covid, roedd pryderon ynghylch y posibilrwydd o atal mesurau diogelu oedd ar waith yng nghyswllt cadw pobl yn gaeth am resymau iechyd a llesiant, er enghraifft, newid y rhestr o bobl oedd yn gallu awdurdodi cadw rhywun yn gaeth a dileu'r mesur diogelu 'ail berson' yn y cyswllt hwn. O ganlyniad, bydd crisialu'r egwyddor hon yn y ddeddfwriaeth yn bwysig, gan y byddai angen i unrhyw gynigion o'r fath mewn deddfwriaeth frys yn y dyfodol roi sylw gweithredol i'r rhesymau dros wydroi'r mesur diogelu pwysig hwn.

## **Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i newid y meini prawf fel bod rhaid bod disgwyliad rhesymol o fudd therapiwtig i'r claf?**

### **A allwch roi rhesymau dros eich ateb?**

Cytuno – fel uchod

Eto rwy'n cytuno â'r egwyddor hon, ac rwy'n credu ei fod yn sylfaenol bwysig o safbwynt hawl ddynol plentyn i dderbyn y safon orau bosibl o ofal iechyd (erthygl 24, CCUHP).

Fodd bynnag, mae fy swyddfa'n ymwybodol o achlysuron lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n gaeth oherwydd eu bod yn achosi risg iddyn nhw eu hunain neu i eraill, ond oherwydd nad oes ganddyn nhw gyflwr iechyd meddwl y mae modd rhoi diagnosis ar ei gyfer, efallai na fydd darpariaeth amgen ar gael, ac efallai na fydd budd therapiwtig i'w ddisgwyl yn realistig. Mae hon yn broblem gyda'r ddarpariaeth bresennol i blant ag anghenion cymhleth, os nad yw darpariaeth haen 4 neu CAMHS diogel yn briodol, neu os nad ydyn nhw'n cyrraedd y trothwy i gael mynediad at y lefel hon o ymyrraeth.

Wrth ystyried y cynnig hwn byddai hefyd o gymorth deall sut byddai 'rhagolygon rhesymol' yn cael eu diffinio. Er y byddai pawb ohonom am i blant a phobl ifanc gael y rhagolygon hynny, y gwir amdani ar lawr gwlad yw nad yw hynny bob amser yn wir.

Bydd angen rhoi ystyriaeth yma i allu plant a phobl ifanc yng nghyswllt y mater hwn.

---

## **C. Asesu o bell (rhithwir)**

### **Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gyflwyno asesu o bell (rhithwir) o dan 'ddarpariaethau penodol' sy'n ymwneud â Meddygon Ail Farn Penodedig, ac Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol?**

#### **A allwch roi rhesymau dros eich ateb?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno – mae'n anodd rhoi barn ar y cynnig hwn pan na cheir fawr ddim manylion ynghylch y manteision neu fel arall i blant.

Er bod asesiadau o bell yn rhan bwysig o'r cynnig sydd ar gael i blant a phobl ifanc, rwyf fi o'r farn y dylai fod cyfle i bob plentyn gael asesiad wyneb yn wyneb, lle bo hynny'n briodol. Mae'n bwysig bod plant yn gallu ymgysylltu ag unrhyw brosesau asesu mewn modd sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus, a sicrhau mai eu barn a'u profiadau nhw eu hunain sy'n cael eu hystyried, heb ddod dan ddylanwad unrhyw oedolion ychwanegol a allai fod yn bresennol. Bydd hyn yn haws ei ddarparu a'i sicrhau mewn cyddestun wyneb yn wyneb.

Rwy'n cydnabod bod lle i asesiadau o bell fel darpariaeth benodol, ac rwy'n annog rhoi ystyriaeth ofalus i'r cynnig hwn, er mwyn sicrhau bod asesu wyneb yn wyneb yn cael ei ystyried yn gyfartal ag asesiadau o bell.

## **D. Diwygiadau i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**

### **Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddiwygio'r Mesur i sicrhau nad oes terfyn oedran ar y rhai sy'n gallu gofyn am ailasesiad o'u hiechyd meddwl?**

#### **A allwch roi rhesymau dros eich ateb?**

Cytuno.

O dan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, mae gan blant hawl i ofal iechyd o'r safon orau bosibl (erthygl 24), a'r hawl i fynegi barn a chael y farn honno wedi'i chymryd o ddifri (Erthygl 12). Rwy'n falch o weld y newid arfaethedig i'r Mesur Iechyd Meddwl, a fyddai'n dileu'r terfyn oedran ar gyfer gwneud cais am ailasesiad, gan y byddai hynny'n hybu hawl plentyn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Mae'r hawl hon yn cynnwys barn plentyn ar bob agwedd ar ofal iechyd<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> [UNCRC General Comment no. 15, 2013](#)

---

O dan erthygl 25 o Gonfensiwn y CU, mae gan blant hefyd hawl benodol i'w triniaeth, a'u gofal ehangach, gael eu hadolygu'n rheolaidd, os ydyn nhw wedi cael eu lleoli oddi cartref at ddibenion gofal neu amddiffyn.

Byddai'r cynnig hwn, felly, yn gwella mynediad at yr hawliau hyn i'r plant dan sylw; gan rymuso plant yn unol â'r Confensiwn, y mae'n rhaid i Weinidogion Llywodraeth Cymru roi sylw dyledus iddo.

### **Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddiwygio'r Mesur i estyn y gallu i ofyn am ailasesiad i bobl a bennir gan y claf?**

#### **A allwch roi rhesymau dros eich ateb?**

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno – eto, ni roddwyd digon o fanylion i fedru ymateb yn gywir i hyn.

Rwy'n cytuno â'r egwyddor, ond ar hyn o bryd nid yw'n eglur beth mae "pobl a bennir gan y claf" yn ei olygu yn y cyd-destun hwn (y sawl sy'n gofyn am y gwasanaeth neu yn ei ddarparu), felly byddwn yn croesawu mwy o eglurder yn hyn o beth.

#### **Barn gyffredinol**

### **Cwestiwn 9: A oes gennych farn am yr effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar draws grwpiau poblogaeth gwahanol?**

Fel y nodwyd uchod, byddai'r cynigion yn gwella hawliau plant i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw (erthygl 12, CCUHP)

### **Cwestiwn 10: A oes gennych farn am yr effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar hawliau plant?**

Fel y nodwyd uchod, byddai'r cynigion yn gwella hawliau plant mewn perthynas â nifer o erthyglau'r Confensiwn.

Rwy'n annog yr aelod i gynnal Asesiad Effaith Hawliau Plant llawn (CRIA). Mae Aelod Gogledd Cymru, Sam Rowlands, wedi cynhyrchu CRIA cryf, clir<sup>2</sup>, sy'n defnyddio templed ein swyddfa ni<sup>3</sup> ar gyfer cwblhau CRIA.

Mae'r CRIA ar gyfer y Bil hwnnw yn cynnwys ystyriaeth benodol i erthyglau a hawliau unigol, yn ogystal ag ystyriaeth amlwg i'r effaith wahaniaethol bosibl ar

---

<sup>2</sup> <https://senedd.wales/media/kdzlomeq/pri-ld16167-em-e.pdf>

<sup>3</sup> [https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/08/CRIAtemplate\\_ENG.docx](https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/08/CRIAtemplate_ENG.docx)

---

grwpiau penodol o blant, gan ystyried sut gellid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

Rwy'n annog yr aelod i gymryd camau i gynhyrchu CRIA cynhwysfawr cyn i'r bil hwn symud ymlaen ymhellach. Byddai ein swyddfa yn falch o gyngori'r Aelod a'i staff ar hyn.

**Cwestiwn 11: A oes gennych farn gyffredinol am y cynnig, nad yw wedi cael sylw yn yr un o'r cwestiynau a ofynnwyd eisoes yn yr ymgynghoriad?**

–

---